YSGOL BRYNREFAIL

YSGOL IACH

Mae cynllun 'Ysgol Iach' Gwynedd yn cael ei reoli mewn partneriaeth gydag Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, Cyngor Gwynedd, CYNNAL a'r bwrdd Iechyd Lleol.
Mae'r cynllun yn galluogi ysgolion i gyfrannu'n bositif tuag at iechyd a lles eu disgyblion, athrawon a'r gymuned ehangach drwy ddatblygu amgylchedd sy'n hyrwyddo iechyd.
Mae 'Ysgolion Iach' yn cyflwyno agweddau iechyd a lles drwy'r Cwricwlwm Cenedlaethol Cwricwlwm cudd ac ethos yr Ysgol. Mae Brynrefail yn datblygu ar y cysylltiadau sydd yn bodoli eisioes rhwng y cartref, y gymuned ac asiantaethau arbenigol.

Er enghraifft gyda 750 o ddisgyblion a 68 o staff y mae Ysgol Brynrefail yn defnyddio llwythi o bapur. Un o'r agweddau y mae Mrs Rhian Owen yn ceisio ei ddatblygu yw ail gylchu'r papur wâst fel un o ganghennau ein polisi 'Ysgol Iach'. Ar hyn o bryd y mae hi yn ddiolchgar iawn i griw o flwyddyn 9 sy'n cymeryd rhan flaenllaw pob wythnos i sicrhau ein bod fel Ysgol yn ymwybodol o'n cyfrifoldeb i chwarae ein rhan i ddiogelu dyfodol y blaned.